Superfast Business Wales

# Canllaw Busnes

# Diogelwch TG

Mae diogelwch yn cael ei amgylchynu gan gyhoeddusrwydd, myth a chodi bwganod, yn enwedig pan y'i cysylltir â'r rhyngrwyd. Tra bydd Band Eang Cyflym Iawn yn cynnig cyfleoedd newydd i'ch busnes drwy werthu, marchnata, gwasanaethau symudol ar-lein, a'u tebyg, mae'n rhy hawdd poeni y gwnaiff ei ddefnydd beri peryglon i'ch busnes.

www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy | 03000 6 03000

Busnes Cymru Business Wales

Undeb Ewropeaidd European Union | Llywodraeth Cymru Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop European Regional Development Fund

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Diogelwch TG

Mae diogelwch yn cael ei amgylchynu gan gyhoeddusrwydd, myth a chodi bwganod, yn enwedig pan y'i cysylltir â'r rhyngrwyd.

Tra bydd Band Eang Cyflym Iawn yn cynnig cyfleoedd newydd i'ch busnes drwy werthu, marchnata, gwasanaethau symudol ar-lein, a'u tebyg, mae'n rhy hawdd poeni y gwnaiff ei ddefnydd beri peryglon i'ch busnes. Diogelwch mewn gwirionedd yw sicrhau fod eich asedau busnes – gwybodaeth, cyllid, ayyb – yn cael eu gwarchod yn ddigonol. Mae'n golygu deall beth sydd o werth i'ch busnes, y peryglon (colli, newid, camddefnyddio) a sut all hynny effeithio arnoch yn ariannol a chyfreithiol, neu effeithio ar eich enw da.

Mae'n goylgu cymryd rhagofalon call yn erbyn peryglon i'ch busnes fel rhan o'ch strategaeth fusnes gyffredinol. Mae'n rhy hawdd gweithredu rheolaethau diogelwch TG a meddwl eich bod yn ddiogel.

Mae diogelwch yn golygu adnabod eich asedau gwerthfawr, a lleihau y perygl iddynt i lefelau derbyniol. Mae'r canllaw hwn yn ystyried diogelwch gwybodaeth o nifer o safbwyntiau, gan gynnwys y defnydd o'r rhyngrwyd, gan roi gwybodaeth sylfaenol ar rai o'r materion allweddol yr ydych angen meddwl amdanynt. Nid yw'n rhoi ateb gwarantedig. Mae pob busnes yn wahanol ac angen teilwra eu datrysiadau diogelwch i'w peryglon canfyddedig penodol.

## Deall

### Y Ffordd Ymlaen

Mae'n hanfodol i unrhyw fusnes warchod ei wybodaeth a'i systemau yn ddigonol. Mae canlyniadau peidio gwneud hynny yn cynnwys effeithio ar refeniw, ymyrraeth busnes, cydymffurfiaeth gyfreithiol wael, peryglu enw da neu, ar ei waethaf, methiant busnes. Felly, mae angen i fusnesau gymryd agwedd systematig i ddiogelwch a'r lle i ddechrau yw llunio a gweithredu cynllun diogelwch gwybodaeth effeithiol.

Mae hyn i gyd yn edrych yn frawychus, ond y cwbl sydd ei angen yw agwedd resymegol. Yr allwedd yw ysgrifennu cynllun diogelwch sy'n dangos yr hyn rydych ei angen ei warchod a pham. Yna gallwch benderfynu pa reolaethau diogelwch yr ystyriwch yn angenrheidiol neu sy'n briodol i leihau'r peryglon hynny i lefel dderbyniol.

Nid oes angen i'r gwaith o ysgrifennu a gweithredu cynllun diogelwch fod yn dasg fawr. Mae cynllun da heddiw yn well na chynllun perffaith yfory, a gellir ei ddiweddaru a'i fireinio yn ddiweddarach.

Nid oes y fath beth â diogelwch absoliwt. Y nod yw cydbwyso cost diogelwch yn erbyn y risg o ddifrod i'ch busnes. Lle da i ddechrau yw adran Fusnes gwefan getsafeonline (www.getsafeonline.org) sy'n disgrifio'r problemau diogelwch, a chamau lliniaru posibl, i nifer o weithgareddau busnes. Defnyddiwch hyn fel rhestr wirio o bethau i feddwl amdanynt. Efallai na fydd yr holl faterion yn berthnasol i chi.

Os ydych yn derbyn taliad drwy gerdyn credyd efallai y bydd yn rhaid i chi gydymffurfio â safon y Diwydiant Cardiau Talu. Gellir cael manylion yn www.pcisecuritystandards.org

Mae'r rhan fwyaf o'r gofynion diogelwch yn synnwyr cyffredin ac yn sylfaen dda i'ch cynllun diogelwch.

## Beth yw'r Gwir Fygythiadau?

Mae yna ddigon o straeon sy'n codi ofn am fygythiadau maleisus. Mewn gwirionedd mae'r rhan fwyaf o broblemau o ganlyniad i weithrediadau bwriadol neu ddamweiniol gan ddefnyddwyr ag awdurdod. Bydd unrhyw system ddiogel resymol yn rhwystro ymosodiadau allanol achlysurol ar hap. Yn fwy tebygol ceir toriadau diogelwch drwy, er enghraifft, bobl yn agor negeseuon e-bost twyllodrus, edrych ar wefannau twyllodrus, cysylltu teclyn personol heintus i'ch rhwydwaith neu brosesu archeb dwyllodrus.

Dylech gymryd yr un rhagofalon yn erbyn cwsmeriaid annibynadwy wrth wneud busnes dros y rhyngrwyd fel y byddech yn ei wneud wyneb yn wyneb. Er enghraifft, gallwch roi orofodi gwirio cofrestriad cyn cymeradwyo prynu dros werth penodol.

Mae cyngor da am senarios twyll, a sut i leihau eu heffaith, ar wefan **Action Fraud** www.actionfraud.police.uk/support_for_you Ceir adnodd wybodaeth ardderchog ar sgamiau arferol, dim i gyd drwy'r rhyngrwyd, yn **Little Book of Big Scams, a ellir ei lawrlwytho o** www.met.police.uk/docs/little_book_scam.pdf

# Mabwysiadu

## Beth mae Diogelwch yn ei Gynnwys?

**Mae angen i chi ystyried pedwar maes:**

- **Technegol** – sicrhau bod eich systemau gwybodaeth yn cael eu gwarchod yn iawn rhag camddefnydd – nid yn unig ar gyfrifiaduron yn eich swyddfa, ond y rhai sy'n rhoi cymorth i'ch gwasanaethau ar y we a'r rhai sydd â mynediad o bell.

- **Personol** – pobl yn aml yw'r ddolen wannaf. Mae angen i chi sicrhau bod gan y rhai sy'n gallu cael mynediad i'ch systemau y breintiau iawn, a'u bod yn deall beth yw eu cyfrifoldebau.

- **Gweithdrefnol** – mae angen sefydlu prosesau i sicrhau bod pobl yn deall ac yn dilyn eich polisïau diogelwch.

- **Cyfreithiol** – mae yna rwymedigaethau cyfreithiol penodol y bydd angen i chi fod yn ymwybodol ohonynt sydd angen mesurau diogelwch penodol ar eu cyfer.

Mae yna hefyd ddiogelwch ffisegol – rheolaethau mynediad i adeiladau, ayyb. Dylai hyn fod yn rhan o'ch agwedd ddiogelwch gyffredinol – er enghraifft, gall fod yn haws rheoli'n gadarn fynediad i'ch swyddfa yn hytrach na gosod rheolaethau meddalwedd cymhleth ar bob cyfrifiadur yn y swyddfa honno i rwystro ymwelwyr rhag camddefnyddio eich systemau.

# Ymelwa

## Meysydd Allweddol i Feddwl Amdanynt

Mae diogelwch yn cynnwys llawer o bethau, ond mae'r rhan fwyaf o ddewisiadau diogelwch wedi'u seilio ar nifer o egwyddorion sylfaenol.

### Diogelwch sylfaenol systemau

Dylai holl systemau gael gwarchodaeth diogelwch sylfaenol ar lefel y teclyn (e.e. gwrth-firws/gwrth-ysbïwedd), lefel rhwydwaith (e.e. waliau tân) a lefel rhaglenni (e.e. gweithgarwch, logiau, amgryptio). Dylai'r fath feddalwedd gael ei ddiweddaru yn rheolaidd.

### Mynediad i wybodaeth

Mae rheoli pwy sydd â mynediad i ba wybodaeth yn hanfodol mewn unrhyw fusnes. Sicrhewch nad ydyn nhw ond â mynediad i'r cyfleusterau hynny a gwybodaeth y maent eu hangen – er enghraifft dim ond ychydig o bobl ddibynadwy ddylai gael hawliau gweinyddol. Yr un mor bwysig yw gwybod pwy oedd yn cael mynediad at ba wybodaeth a pha bryd.

Pa un ai a yw eich data wedi ei storio ar wasanaethwr lleol neu o bell neu yn y cwmwl, dylai'r un rheolau fod yn berthnasol, pa un ai a yw pobl yn myned i'ch systemau yn lleol neu o bell – er enghraifft o liniadur mewn lle cyhoeddus neu gyfrifiadur gartref. O ran mynediad o bell, dylech sicrhau bod y dull mynediad yn ddiogel, mewn lleoedd y defnyddir wi-fi cyhoeddus er enghraifft. Mae technoleg fel gwasanaethau Rhwydwaith Preifat Rhithwir yn ddelfrydol i hyn, a maent ar gael yn gyffredinol.

Fe allech hefyd gael prosesau busnes wedi cael eu contractio allan i drydydd parti – er enghraifft, rhestr gyflog. Er, efallai, na fyddwch yn gallu cael mynediad o bell yn uniongyrchol i'r fath wasanaeth, mae'n rhaid i chi ofalu bod y trydydd parti'n gwarchod eich data yn unol â'ch cynllun diogelwch.

## Teclynnau personol

Mae gweithwyr yn gynyddol eisiau dod â'u teclynnau eu hunain i'r gweithle – boed yn liniaduron, ffonau clyfar, llechi neu go' bach (USB). Gall hyn agor eich systemau i haint na ellir ei reoli.

Mae gadael i weithwyr roi data'r cwmni ar declyn personol yn arwain at ychydig o golled dros reoli y data hwnnw. Gall teclyn gweithiwr fod yn anodd i'w fonitro yn effeithiol. Gall fod yn anodd gwybod pa ddata a storir yn y ddyfais os bydd yn cael ei golli neu ei ladrata. A phan mae gweithiwr yn gadael y cwmni, gall fod yn amhosibl adfer y data.

Mae yna nifer o becynnau sy'n cynnig Rheoli Teclyn Symudol. Mae'r rhain angen i holl declynnau symudol a rhai personol y staff gynnwys meddalwedd sy'n sicrhau cyfanrwydd a chysondeb data ledled eich systemau. Bydd y rhain hefyd yn gallu glanhau data o bell os bydd y teclyn yn mynd ar goll neu'n cael ei ladrata. I hyn fod yn effeithiol, mae angen i chi sicrhau bod yr holl declynnau sy'n gysylltiedig â'ch systemau yn cael eu cynnwys.

## Gwarchodwch eich gwefan

Mae'n hanfodol gwarchod gwefan e-fasnach neu farchnata yn erbyn ymosodiad allanol a hefyd fethiant technegol. Mae canlyniadau peidio gwneud yn cynnwys colli gwasanaeth, colli arian a niwed i enw da.

Os ydych yn cynnal eich gwefan eich hun yn hytrach na defnyddio cwmni cynnal trydydd parti, sicrhewch fod y caledwedd a'r meddalwedd yn ddiogel. Er enghraifft, defnyddiwch y fersiwn ddiweddaraf o unrhyw feddalwedd e-fasnach. Sicrhewch fod y gweinydd yn cael ei warchod gan wal dân effeithiol a meddalwedd gwrth-firws/gwrth-ysbïwedd. Monitrwch ffeiliau cofnodi yn ofalus i ganfod unrhyw ymgais i ymwthio. Peidiwch byth â storio gwybodaeth bersonol cwsmeriaid a manylion cardiau credyd ar wasanaethwr e-fasnach y gall y cyhoedd ei gyrraedd.

## Gofynion cyfreithiol

Os oes gennych ddata personol cwsmeriaid, gweithwyr neu unigolion eraill bydd angen i chi gydymffurfio gyda'r Ddeddf Diogelu Data a chofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Mae angen i chi weithredu mesurau diogelwch digonol i warchod preifatrwydd ac chyfanrwydd data personol lle bynnag y ceir y data hwnnw, gan gynnwys, er enghraifft, ar declynnau personol a chymylau pell. Mae cyfyngiadau hefyd i ba raddau y gallwch fonitro beth mae eich gweithwyr yn ei wneud ar eich systemau. Ceir arweiniad byr i fusnesau bach a chanolig ar y pynciau hyn ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:
www.ico.gov.uk/for_organisations/guidance_index/~/media/documents/library/Data_Protection/Practical_application/quick_guide_to_the_employment_practices_code.ashx

Mae arweiniad diogelwch byr ar gael hefyd yn:
www.ico.gov.uk/for_organisations/guidance_index/~/media/documents/library/Data_Protection/Practical_application/it_security_practical_guide.ashx

Mae gofynion cyfreithiol ynghylch yr angen i ddarparu mynediad ar eich gwefannau i bolisïau preifatrwydd data personol a pholisïau ar y defnydd o gwcis, sydd hefyd yn dod o dan ganllawiau'r Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

### Polisïau staff

Gallai gweithwyr sy'n gallu mynd ar y rhyngrwyd yn y gwaith lawrlwytho firysau, creu rhwymedigaethau cyfreithiol, ac o bosibl, ryddhau gwybodaeth werthfawr. Mae'n bosibl hefyd yn byddai hyn yn gwastraffu amser sylweddol a cholli cynhyrchiant. Gall diogelwch technegol a hyfforddiant staff fod o gymorth.

Mae'n hanfodol datblygu Polisïau Defnydd Derbyniol sy'n diffinio yn glir pa ymddygiad sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol i holl ddefnyddwyr gyda mynediad i'ch system. Dylai hyn fod yn rhan o'ch termau cyflogi. Tarwch gydbwysedd rhwng ymarferoldeb, ymddiriedaeth a rheolaeth. Dylai'r fath bolisi gynnwys pynciau fel:

- Pan mae defnyddio cyfleusterau'r cwmni ar gyfer defnydd preifat yn dderbyniol (yn cynnwys pa fath o ddefnydd)
- Canllawiau ar osod rhaglenni, lawrlwytho data (e.e. ffilmiau neu gerddoriaeth) neu ddefnyddio gwasanaethau o bell heb ganiatâd o flaen llaw
- Pa declynnau preifat y gellir eu cysylltu â'ch rhwydwaith, a chyda pha gyfyngiadau

## Awgrymiadau Ardderchog

### Mae diogelwch yn gyfannol

Mae'n golygu adnabod a mynd i'r afael â pheryglon i'r busnes, nid peryglon technegol TG yn unig.

### Paratowch gynllun diogelwch

Nodwch beth sy'n werthfawr i chi, sut y gellid ei niweidio, a sut y gellir lleihau'r peryglon i lefel dderbyniol.

### Mae pobl yn allweddol

Sicrhewch fod y rhai sydd â mynediad i'ch systemau busnes yn deall a dilyn eich cynllun, gweithdrefnau a phrosesau diogelwch. Paratowch Bolisïau Defnydd Derbyniol a sicrhau fod pawb gyda mynediad i'ch systemau yn eu llofnodi a'u dilyn.

### Gwybodaeth

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod lle mae eich gwybodaeth. Fe all fod ar wasanaeth pell nad ydych yn ei reoli'n uniongyrchol, neu ar liniadur, iPad neu gyfrifiadur gartref. Sicrhewch fod gwybodaeth a gwasanaethau yn cael eu gwarchod yn iawn lle bynnag y bônt.

### Diogelu gwasanaethau allanol

Os ydych yn darparu gwasanaethau ar y we, sicrhewch eu bod yn cael eu cadw ar wahân i'ch systemau busnes mewnol, eu bod ac yn ddiogel a bod y gwasanaethau we eu hunain wedi'u diogelu'n iawn – hyd yn oed os cânt eu darparu gan wasanaeth we trydydd parti.

### Cydymffurfiwch â'r gyfraith
Yn enwedig os ydych yn trin gwybodaeth bersonol.

### Rheoli diweddariadau
Sicrhewch bob tro eich bod yn gosod y fersiwn ddiweddaraf o gynnyrch meddalwedd a'ch bod yn gosod holl ddiweddiariadau hanfodol a rhai a gyhoeddir gan gyflenwyr y cynnyrch yn brydlon.

### Adolygwch a diweddarwch
Nid yw'r byd yn aros yn llonydd, nac ychwaith eich busnes. Daliwch ati i gadarnhau fod eich cynllun diogelwch yn ddilys a'i ddiweddaru, a hefyd y rhaglenni diogelwch sylfaenol yn ôl y gofyn.

### Cadwch yn syml
Gall diogelwch ymddangos yn rhwystr. Gwnewch gymaint ag yr ydych yn ei ystyried yn angenrheidiol i warchod eich busnes, ac i leihau perygl i lefel sy'n briodol i chi. Peidiwch â gweithredu systemau diogelu cymhleth heb asesiad gofalus o fantais yn erbyn cost (a all fod cymaint am broblemau pobl â thechnoleg).

## Adnoddau Defnyddiol

www.ecrimewales.com
Mae e-Drosedd Wales yn bartneriaeth o sefydliadau ac asiantaethau sy'n ymroddedig i gyflenwi busnesau Cymru gyda'r wybodaeth a'r offer i fod yn ymwybodol, gwyliadwrus, gwybodus ac yn bennaf oll yn ddiogel oddi wrth effeithiau e-Drosedd yn ei holl ffurfiau

## Y CAMAU NESAF

1. **Cofrestrwch i fod yn bresennol mewn Gweithdy Datblygu Busnes wedi'i ariannu'n llawn:**
   **http://business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau**

2. **Trefnwch apwyntiad i weld Ymgynghorydd Buses a fydd yn eich helpu I greu cynllun gweithredu personol i dyfu'ch busnes:**
   **http://business.wales.gov.uk/cy/cysylltwch-a-ni**

## Cadwch eich bys ar y pwls gyda Cyflymu Busnesau Cymru

Gweld sut mae busnesau eraill yng Nghymru wedi ymelwa o Fand Eang Cyflym Iawn:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/straeon-llwyddiant-cyflym**

---

Canfod faint allai'ch busnes chi arbed gyda'r cyfrifiannell arbedion:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/cyfrifwr-arbedion**

---

Mae Canllawiau Busnes eraill a allai fod o ddiddordeb i chi yn cynnwys:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/canllawiau-busnes-cyflym-iawn**

---

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf yn fisol ar ddatblygiad busnes, newyddion technoleg a digwyddiadau tanysgrifiwch i Daflen Newyddion Busnes Cymru:
**https://public.govdelivery.com/accounts/UKWALES_CY/subscriber/new**

---

Am ragor o wybodaeth ffoniwch 03000 6 03000 neu ymwelwch â:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy**